

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 12 Hydref 2022**

Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
1	YMDDIHEURIADAU	Y Cyngorydd Alan James
2	DATGAN CYSYLLTIAD	Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.
3	MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD	Ni chodwyd unrhyw fater bryd.
4	COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF	<b>PENDERFYNWYD</b> derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.
5	ADOLYGU - DEDDF TRWYDDEDU 2003: DATGANIAD O'R POLISI TRWYDDEDU	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod –</p> <p>(a) y newidiadau arfaethedig a argymhellir i'r polisi drafft fel y manylir yn Atodiad C (colofn 4) ynghyd â Chynigion 1-4 ac 6 yn Atodiad B yn cael eu cymeradwyo fel polisi drafft terfynol, a</p> <p>(b) cyfarwyddo swyddogion i symud y polisi drafft terfynol i'w gymeradwyo yn y Cyngor.</p>
6	ADOLYGU OEDRAN CERBYDAU I DRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI A CERBYDAU HURIO PREIFAT	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod –</p> <p>(a) y dyddiad gweithredu i gerbydau trwydded yn unig hyd at 12 oed o ddyddiad y cofrestrriad cyntaf i gael ei oedi am ddeuddeng mis arall o fis Gorffennaf 2023 tan Gorffennaf 2024, yn aros am adolygiad o'r cyfyngiadau oedran cerbyd cyfredol;</p> <p>(b) swyddogion yn gallu awdurdodi i ddechrau proses ymgynghori gyda holl ddeiliaid trwydded a phartneriaid allweddol i ystyried cynyddu oedran adnewyddu cerbydau i dros 12 oed, ar sail gofynion amserlen cynnal a chadw caeth a threfn profi cydymffurfio, yn hytrach nag oedran fel y prif ddynodwr;</p>

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 12 Hydref 2022**

Agenda Item No	Topic	Decision
		<p>(c) <i>swyddogion yn gallu awdurdodi i ddechrau proses ymgynghori gyda holl ddeiliaid trwydded a phartneriaid allweddol i ystyried cynyddu oedran cerbydau fflyd newydd i dan 8 oed, ar sail gofynion amserlen cynnal a chadw caeth a threfn profi cydymffurfio, yn hytrach nag oedran fel y prif ddynodwr; a</i></p> <p>(d) <i>swyddogion yn gallu awdurdodi i edrych i mewn i broses dirprwyo i benderfynu ar geisiadau cerbyd fflyd newydd i gerbydau dros 5 oed, tra bod y broses ymgynghori uchod yn parhau, a chyflwyno adroddiad i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor ei ystyried.</i></p>
7	RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2022/23	<p><b>PENDERFYNWYD</b> bod –</p> <p>(a) <i>cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, a</i></p> <p>(b) <i>cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer 2022/23 fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad, yn amodol ar gynnwys adroddiad nôl ym mis Rhagfyr am broses ddirprwyedig i benderfynu ar geisiadau fflyd newydd ar gyfer cerbydau 5 mlynedd a hŷn fel y cymeradwyir o dan y cofnod blaenorol.</i></p>
8	CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 559870	<p><b>PENDERFYNWYD</b> <i>cymeradwyo'r cais ar gyfer trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 559870.</i></p>
9	CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 559851	<p><b>PENDERFYNWYD</b> <i>cymeradwyo'r cais ar gyfer trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 559851.</i></p>
10	CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU	<p><b>PENDERFYNWYD</b> <i>cymeradwyo'r cais ar gyfer trwydded cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 559747.</i></p>

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 12 Hydref 2022

Agenda Item No	Topic	Decision
	HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 559747	